



Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen (Bagloriaeth Cymru) Adroddiad yr Uwch Gymedrolwyr January 2021

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Gweinyddu

Cofrestriadau

Cafodd materion a wynebwyd gan ganolfannau ers mis Mawrth 2020 effaith sylweddol ar nifer y cofrestriadau ar gyfer y gyfres gymedroli ym mis Ionawr eleni. Er bod y niferoedd cofrestru ar gyfer yr Her Menter a Chyflogadwyedd yn debyg i gyfres y mis Ionawr blaenorol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11, roedd y cofrestriadau ar gyfer y Project Unigol a'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang tua 50% yn is, gyda niferoedd cofrestru ar gyfer yr Her Gymunedol yn gostwng tua 90%. Pan oedd yn ofynnol i adeiladau ysgolion gau ganol mis Rhagfyr, fe wnaeth sawl canolfan ddileu eu cofrestriadau gwreiddiol, ac roedd hyn yn amlwg ar draws y pedair cydran. Roedd y proffil cofrestru ar gyfer cyfres mis Ionawr eleni bron yn gyfan gwbl yn ddysgwyr Blwyddyn 11, gan y gofynnwyd i ganolfannau gyflwyno gwaith a gwblhawyd o dan ofynion gwreiddiol y cymhwyster yn unig.

Asesiad dan Reolaeth

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ganolfannau'r Llyfrynnau Asesu Ymgeiswyr i ddangos tystiolaeth o'r dogfennau gofynnol ar gyfer asesiad dan reolaeth. Fodd bynnag, cyflwynodd rhai canolfannau yr hen daflenni asesu a thaflenni Datganiad/Amser. Atgoffir canolfannau bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r dogfennau asesiad dan reolaeth wedi'u diweddarau i gofnodi marciau ymgeiswyr, llofnodion aseswyr ac ymgeiswyr a rheoli amser yr Heriau. Mae'r rhain ar gael ar y wefan ddiogel.

Cyflwyno Marciau

Er eu bod yn wynebu amgylchiadau anodd, dylid llongyfarch y rhan fwyaf o ganolfannau ar gyflwyno marciau i'r system IAMIS erbyn y dyddiadau cau gofynnol, a oedd yn caniatáu i'r gyfres gymedroli symud ymlaen yn amserol. Yn ddealladwy, gwelodd y gyfres hon fwy o ganolfannau nag arfer yn cyflwyno marciau y tu hwnt i'r dyddiad cau, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol a wynebwyd. Ffactor arall a gysylltodd y gyfres hon â'r amgylchiadau eithriadol oedd y cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr a gofrestrwyd fel ymgeiswyr 'Absennol'.

Cyflwyno Gwaith drwy ddull e-gyflwyno

Oherwydd ffactorau lliniarol haf 2020, dim ond yr ail gyfres oedd hon lle cyflwynwyd pob un o'r pedair cydran ar gyfer y cymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen gan ddefnyddio'r system e-gyflwyno. Cafodd y gwaith o lwytho tystiolaeth ymgeiswyr i fyny ei reoli'n dda gan bob canolfan. Yn ddealladwy, roedd trefnu tystiolaeth ymgeiswyr yn y ffolderi a lwythwyd i fyny yn fwy o broblem nag a welwyd yn ystod y gyfres flaenorol. Ar gyfer cyfresi yn y dyfodol, atgoffir canolfannau bod y ddogfen ganllaw e-gyflwyno yn gofyn am ddefnyddio un ffeil sip wedi'i labelu ag enw a rhif yr ymgeisydd, sy'n cynnwys uchafswm o chwe dogfen o fathau o ffeiliau a dderbynnir (mp3, mp4, doc, pdf, xls, ppt a jpeg).

Project Unigol

Roedd nifer fach o ganolfannau a gyflwynodd y Project Unigol ar gyfer y gyfres hon, sy'n nodweddiadol ar gyfer cyfres mis Ionawr, gyda'r rhan fwyaf o ganolfannau'n dewis cyflwyno yn ystod cyfres yr Haf. Fodd bynnag, ar gyfer y gyfres hon ym mis Ionawr, roedd nifer llai eto oherwydd y materion sy'n wynebu ysgolion. Dylid canmol canolfannau a ddewisodd gyflwyno gwaith ar gyfer y gyfres hon am eu hymdrechion i ganiatáu i ymgeiswyr fodloni meini prawf y Project; sicrhau bod gwaith yn cael ei asesu'n briodol ar y cyfan, ac am lwytho gwaith i fyny yn brydlon. Roedd rhai mân faterion yn ymwneud â gweinyddu (fel cyfanswm marciau coll ar daflenni asesu) er y cydnabyddir efallai nad yw canolfannau wedi gallu gwneud eu 'gwiriadau terfynol' arferol cyn llwytho gwaith i fyny, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol y mae canolfannau'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae canolfannau wedi parhau i gefnogi ymgeiswyr i gyflawni canlyniadau o ansawdd da ac wedi'u hannog i archwilio amrywiaeth eang o destunau a theitlau. Dechreuodd testun anochel 'coronafeirws' ddod i'r amlwg fel testun o ddiddordeb i ymgeiswyr, gyda chyfle i ymdrin ag amrywiaeth eang o is-destunau o fewn hyn, yn ymwneud â gwleidyddiaeth a'r GIG. Archwiliodd ymgeiswyr eraill destunau a oedd yn ymwneud â diddordebau personol a hobiau a gwelwyd nifer fach o arteffactau hefyd yn ystod y gyfres hon.

Deilliant Dysgu 1

Nodi ffocws a chwmpas Project Unigol

Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn hyderus wrth ysgrifennu nodau ac amcanion ac yn deall eu swyddogaeth, a sut y byddent yn darparu strwythur mewn perthynas â datblygu ac ategu'r Project wrth iddo ddatblygu. Roedd rhai nodau ac amcanion ychydig yn rhy uchelgeisiol, a oedd yn rhoi pwysau ar ymgeiswyr yn eu hymdrechion i weithio o fewn ffiniau cyfrif geiriau'r Project. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymgeiswyr ychydig yn rhy syml yn eu nod a'u hysgrifennu gwrthrychol ac yn cynnwys rhestr o dasgau, ond roedd hyn yn dal i ganiatáu i ymgeiswyr ddilyn trefn a dilyniant rhesymegol i gyflawni Projectau llwyddiannus ar y cyfan. Roedd cyflwyniadau wedi'u hysgrifennu'n dda ar y cyfan, ac roeddent yn caniatáu i ymgeiswyr osod cyd-destun a phwrpas y Project i'r darllenydd. Ar adegau, aseswyd ymgeiswyr yn hael ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn, yn enwedig lle'r oedd ymgeiswyr naill ai'n rhy uchelgeisiol neu lle'r oeddent yn llithro i gyfeirio at ddulliau ymchwil.

Deilliant Dysgu 2

Dethol a chynllunio dulliau, adnoddau a deunyddiau ymchwil

Ar gyfer y deilliant dysgu hwn, roedd elfen o soffistigeiddrwydd yn bresennol ar gyfer yr ymgeiswyr mwyaf galluog, a oedd yn hyderus ac yn glir yn eu hysgrifennu rhesymeg. Roedd yr ymgeiswyr hyn yn gallu trafod sut yr oeddent yn bwriadu bodloni eu syniadau ymchwil a dangos gweledigaeth glir ar sut y gellid cyflawni'r rhain. Rhoddodd llawer o ymgeiswyr esboniadau trylwyr hefyd ynghylch pam y dewiswyd ffynonellau penodol a sut y byddai'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chael yn bodloni eu nodau/amcanion. Fodd bynnag, roedd nifer o ymgeiswyr o hyd a wnaeth sylwadau braidd yn gyffredinol ar eu ffynonellau, a oedd yn eu tro yn eu rhwystro rhag ennill marciau yn y bandiau uwch. Yn yr achosion hyn, roedd ymgeiswyr yn ansicr yn eu trafodaethau ynghylch sut y gallai'r ffynonellau fod o ddefnydd iddynt ac nid oedd yr esboniad bob amser yn gysylltiedig â'r nodau ac amcanion. Roedd tuedd i ymgeiswyr rannu eu rhesymu yn ddwy adran: ymchwil cynradd ac eilaidd ac roeddent o'r farn eu bod yn ddau endid ar wahân, yn hytrach na chydblethu'r meysydd hyn i driongli canfyddiadau. Byddai amrywiaeth ehangach o ddulliau ymchwil cynradd yn gwella Projectau ymhellach, gan fod ymgeiswyr yn dibynnu ar holiaduron i gyflawni'r elfen hon o'r meini prawf.

Deilliant Dysgu 3

Dethol, coladu, cyfeirio ac asesu hygrededd gwybodaeth a data rhifiadol

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cymhleth drwy gydol eu Projectau, a oedd yn rhoi deunydd manwl a chynhwysfawr iddynt i gyflawni eu maes ymchwil. Eto yn y gyfres hon, nid oedd sgiliau cyfeirio bob amser yn effeithiol, gan ei gwneud hi'n anodd i'r cymedrolwyr ganfod o ble y daeth y wybodaeth. Dylai'r canolfannau atgoffa'r ymgeiswyr o bwysigrwydd dyfynnu eu ffynonellau, er mwyn gallu dyfarnu marciau priodol iddynt am gynnwys eu gwaith ymchwil. Yn ogystal, mae nodi ffynonellau yn helpu i gael gwared ar unrhyw ymholiadau posibl mewn perthynas â llên-ladrad. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod amser yn cael ei dreulio i atgoffa ymgeiswyr am foeseg eu hysgrifennu holiaduron, yn enwedig yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle mae iechyd meddwl yn faes sy'n peri pryder i gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Dylid addysgu agweddau moesegol ymchwil cynradd i ymgeiswyr; dylai ymatebwyr i'r holiadur gael sicrwydd y bydd eu manylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel a bod ymatebion yn ddienw yn unol â gofynion GDPR. Anaml y cafodd ystyriaeth o hygrededd ffynonellau (cylchrediad, dibynadwyedd a dilysrwydd) eu harchwilio'n fanwl gan ymgeiswyr, neu lle'r oedd yn bresennol, roedd sylwadau ychydig yn ansicr.

Deilliant Dysgu 4

Dadansoddi'r data rhifiadol a'u harddangos gan ddefnyddio technegau digidol

Roedd hwn yn faes o wendid ar gyfer y gyfres hon, o bosibl o ystyried colli rhywfaint o amser addysgu mewn lleoliadau ystafell ddosbarth traddodiadol, lle byddai sgiliau rhifedd ategol wedi cael eu haddysgu a'u hymarfer. Ar y cyfan, roedd y dadansoddiad o ganfyddiadau rhifiadol yn aml yn sylfaenol, gydag ymgeiswyr yn cyflwyno siartiau bar/siartiau cylch gwybodaeth. Nid oedd ymgeiswyr bob amser yn hyderus yn eu dadansoddiad o'r siartiau/graffiau ac yn aml yn ailadrodd yr hyn a oedd yn amlwg o'r siart ei hun. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyfuno ac yn cysylltu canfyddiadau'r siartiau/graffiau â'r nod/amcan a sicrhau eu bod yn berthnasol i'r pwnc. Dylid annog ymgeiswyr hefyd i feddwl a yw eu canfyddiadau'n cyfateb i'w hymchwil eilaidd, neu mewn gwirionedd, yn ei wrthwynebu. Byddai hyn yn ei dro yn caniatáu i ymgeiswyr ddangos lefel fwy cymhleth o sgîl. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod y graffiau y maent yn eu dewis i arddangos eu canfyddiadau yn briodol ac yn addas i'r diben wrth gyfleu canlyniadau. At hynny, dylid gwirio'r echelinau am briodoldeb a dylid labelu graffiau a siartiau yn glir.

Deilliant Dysgu 5

Cyfosod, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth a safbwyntiau

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn gallu cyfosod a dadansoddi'n fanwl y wybodaeth yr oeddent yn ei chynnwys, gyda'r ymgeiswyr mwy hyderus yn darparu amrywiaeth eang o safbwyntiau i lunio darnau terfynol cytbwys. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dangos lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth, hyd yn oed ar y lefelau is. Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod yr ymgeiswyr yn gyffredinol wedi gallu dewis eu testunau diddordeb eu hunain. Ceisiodd yr ymgeiswyr a gyflwynodd arteffactau ddangos tystiolaeth o'r broses o ddatblygu eu syniad, er y gallai hyn wedi bod yn fwy manwl er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff syniadau cychwynnol eu datblygu i greu'r deilliant terfynol (y daith). Yn aml iawn, roedd rhai nodiadau ymchwil sylfaenol wedi'u cynnwys, a oedd wedyn yn neidio i'r canlyniad terfynol, heb unrhyw dystiolaeth o waith datblygu. Yn gyffredinol roedd y canolfannau'n sicr yn eu hasesiad o'r Deilliant Dysgu hwn.

Deilliant Dysgu 6

Llunio a chyflwyno canlyniad

Dangosodd ymgeiswyr amrywiaeth o sgiliau a thechnegau perthnasol i allu cyflwyno eu hymchwil mewn fformat priodol ac roedd y gwaith wedi'i drefnu'n dda ar y cyfan ac yn cyflwyno canlyniad terfynol a oedd, ar y cyfan, yn mynd i'r afael â nodau'r Project. Roedd ymgeiswyr yn hyderus yn eu 'sgiliau llythrennedd digidol' drwy weithredu meddalwedd i greu eu Prosiectau. Mae ymgeiswyr yn fwy nawr nag erioed, yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau digidol i gefnogi eu hymchwil a'u hastudio ac wedi addasu'n dda, lle mae technoleg yn caniatáu. Roedd ymgeiswyr llai galluog a gyflwynodd Broiectau mewn fformat traethawd yn amlwg wedi ei chael hi'n anodd bodloni gofynion y meini prawf o ran cyfleu ystyr a mynegi safbwyntiau –

gallai'r canolfannau ystyried cynnig y dylai'r ymgeiswyr lefel is gwblhau arteffactau. Mae'n bosibl y bydd y fformat hwnnw yn fwy hygyrch iddynt.

Deilliant Dysgu 7

Llunio barn a dod i gasgliadau

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sylwadau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â'u canfyddiadau ar gyfer pob amcan. Roedd yr ymgeiswyr mwy galluog yn gallu darparu sylwadau gwerthusol, yn hytrach na disgrifio'r hyn a ganfuwyd drwy gydol pob nod/amcan. Nodyn i'ch atgoffa y dylid ymdrin eto â phob nod ac amcan ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn, er mwyn sicrhau bod pob un wedi'i werthuso'n briodol. Roedd ymgeiswyr hefyd yn gallu sicrhau marciau yn seiliedig ar y penderfyniadau y gwnaethant trwy gydol y Project yn gyffredinol.

Deilliant Dysgu 8

Gwerthuso ei berfformiad ei hun wrth reoli Project Unigol

Mae ymgeiswyr yn dod yn fwy medrus wrth fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain drwy gydol cwblhau'r Project a defnyddiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr bob un o'r saith sgîl a ddatblygir drwy gydol y Project fel strwythur i gwblhau'r deilliant dysgu hwn yn llwyddiannus. Canolbwyntiodd llawer o ymgeiswyr ar y sgiliau a restrir yn y fanyleb: Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd Ddigidol, Effeithiolrwydd Personol, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigedd ac Arloesi a Chynllunio a Threfnu, sy'n ddull effeithiol. Nododd rhai ymgeiswyr yr amgylchiadau anodd a oedd yn ymwneud â chwblhau eu Projectau, o ganlyniad i'r pandemig. Oherwydd hyn, mae angen canmol ymgeiswyr a chanolfannau am eu dull a'u diwydrwydd wrth sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd i safon uchel ar y cyfan.

Her Menter a Chyflogadwyedd

Ffocws allweddol yr Her Menter a Chyflogadwyedd yw datblygu sgiliau Creadigedd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol y dysgwyr gan roi profiad iddynt o weithio fel rhan o dîm. Unwaith eto, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli ym mis Ionawr eleni yn awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu'n frwdfrydig â briff yr Her, ac mae mwy o ganolfannau'n dewis cyflawni'r briff i'r pwynt cynhyrchu, a all wella ymgysylltu.

Bu cynnydd nodedig yn y gyfres hon mewn llyfrynau sy'n gor-arwain yn cael eu creu ar gyfer ymgeiswyr, yn aml yn cynnwys cyfres o gyfarwyddiadau, nad ydynt yn briodol ar gyfer dysgwyr lefel 2. Anogir canolfannau i adolygu'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu yn ystod yr Her, er mwyn peidio â chyfyngu ar ddysgwyr o ran y bandiau asesu y gallant eu cyrraedd drwy fod yn rhy rhagnodol.

Deiliant Dysgu 1 – Gallu defnyddio Creadiedd ac Arloesi

Mae cynhyrchu nifer o syniadau yn llwyddiannus ar draws y rhan fwyaf o ganolfannau gydag ymgeiswyr yn llunio syniadau'n unigol ac yn rhannu ar y cyd. Wrth reoli syniadau, dewisodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddefnyddio map meddwl, gyda'r rhai a ennillodd farciau yn y bandiau uwch yn dangos cysylltiadau ac yn trefnu syniadau i glystyrau ystyrlon. Mae'n galonogol gweld mwy o ganolfannau'n canolbwyntio ar gyfiawnhau'r dewis o gynnyrch neu wasanaeth, ond dewis personol yw'r dewis yn aml ac nid a yw'r cysyniad yn realistig neu'n briodol. Er nad yw'n ofynnol cynhyrchu'r cynnyrch na darparu'r gwasanaeth, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn ystyried dilysrwydd eu syniadau.

Bu cynnydd amlwg yn nifer y briffiau Her a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaeth yn y gyfres hon. Mae ymgeiswyr wedi dangos creadigedd wrth ddatblygu logos a deunydd hyrwyddo o amgylch y cysyniad, ond yn llai ar y syniad ei hun. Er bod gorgyffwrdd rhwng y syniad cychwynnol a'r marchnata ar gyfer sawl agwedd, yn aml nid oes llawer o bwyslais ar gynhyrchu syniadau a sut y cânt eu datblygu ac mae'r ffocws ar y logisteg. Roedd yr elfen ymchwil yn tueddu i fod yn fwy trylwyr wrth ddatblygu gwasanaeth yn hytrach na chynnyrch.

Mae llawer o ganolfannau'n cynnwys delweddau neu frasluniau o'r cynnyrch/gwasanaeth posibl ochr yn ochr â'r dadansoddiad SWOT sy'n helpu i ddangos y broses ddatblygu. Gall delweddau heb hawlfraint o'r rhyngwyd fod o gymorth hefyd wrth ddangos syniad neu gynnal dadansoddiad o gystadleuwyr, ond yn rhy aml ni ddangosir unrhyw ddatblygiad pellach ac ni ddangosir unrhyw drafodaeth yn y cofnodion o sut y gellid addasu'r syniad.

Yn ystod y cam datblygu, mae ymgeiswyr mwy llwyddiannus yn dangos adborth gan gwsmeriaid o holiadur neu ddefnydd o grwpiau ffocws wrth ddewis syniadau gorau'r grŵp. Mewn llawer o achosion, dim ond ar y cam olaf y caiff adborth cwsmeriaid ei ystyried yn aml ac nid yw'n llywio unrhyw welliannau, addasiadau na drafftiau pellach o'r syniad gwreiddiol. Mae hyn yn wybodaeth hanfodol i'w chael wrth roi gwerthusiad cytbwys a manwl o'r broses sy'n gysylltiedig â datblygu cysyniad newydd. Mae'n galonogol gweld cofnodion yn cael eu cynnwys ym mron pob sampl ac mae'n adnodd arall ar gyfer dangos ar y cyd, cyfiawnhad dros syniadau a dewisiadau.

Wrth fyfyrion ar y broses, mae ymgeiswyr mwy llwyddiannus yn trafod sut yr oeddent yn addasu, neu gyfuno syniadau ar hyd y ffordd ac yn dogfennu'r hyn a'u harweiniodd i ddod i'r penderfyniadau hyn. Yn rhy aml, mae gwerthusiadau'n gyfres o gwestiynau arweiniol ac mae ysgrifennu rhydd yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na gwerthusol.

Deilliant Dysgu 2 – Deall Effeithiolrwydd Personol

Yn gyffredinol, caiff y deilliant dysgu hwn ei gwblhau'n llwyddiannus ar draws y rhan fwyaf o ganolfannau. Mae amrywiaeth o archwiliadau sgiliau pwrpasol yn cael eu defnyddio gan gynnwys fformatau digidol. Lle mae cynhyrchu canlyniadau'n awtomatig yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd ei ddadansoddi, nid oes angen cynnwys hyn yn y dasg. Y dadansoddiad a wnaethpwyd gan yr unigolyn yw'r hyn sy'n cael ei asesu, ac sydd ei angen i ennill marciau yn y bandiau uwch. Mae ailedrych ar yr archwiliad sgiliau ar ddiwedd y broses yn ffordd effeithiol o nodi datblygu sgiliau. Mae hefyd o gymorth i ymgeiswyr i beidio bod yn ddisgrifiadol o'r broses yn hytrach na myfyrion ar ddatblygiad eu sgiliau personol a thîm.

Yn gynyddol ceir tystiolaeth o gyfarfodydd tîm i drafod y cryfderau a'r gwendidau sy'n deillio o'r archwiliadau sgiliau unigol wrth ddewis rolau. Er bod hyn yn arfer da, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn gwneud sylwadau ar eu sgiliau wrth weithio fel rhan o dîm. Roedd nodi sgiliau yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ganolfannau, ond roedd cynlluniau ar gyfer gwella yn aml yn rhy fyr ac nid oeddent yn rhoi ffyrdd realistig y gallent wneud hyn mewn perthynas â'r Her.

Mae 'Asesiad Rheoli THS Cenedlaethol/Sylfaen' yn nodi y dylai tystiolaeth ar gyfer Tasg 1 fod yn lythyr cais am rôl benodol o fewn y tîm, sy'n tynnu sylw at sgiliau'r unigolyn. Ceir llwyddiant cymysg gyda hyn gan fod llawer o ganolfannau'n cyflwyno CVs o dempledi, nad ydynt yn ymwneud â'r dasg archwilio sgiliau sy'n rhagflaenu hyn.

Mae cofnodion y cyfarfodydd yn dod yn fanylach ac yn cynnwys atebolrwydd i rôl ddynodedig yn y tîm. Mae cofnodion yn adnodd defnyddiol iawn wrth ddangos sgiliau hunanreoli, rheoli amser a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol. Wrth ysgrifennu'r adlewyrchiad personol, gellir defnyddio cofnodion i fesur cynnydd (targedau SMART). Mae'n amlwg pan fydd cofnodion wedi'u hysgrifennu'n ar ôl y digwyddiad gan eu bod yn brin o fanylion ac nad ydynt yn helpu'r dysgwyr ddatblygu. Mae'r deilliant dysgu hwn yn enghraifft o ble mae templedi'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithiol yn gyffredinol.

Deilliant Dysgu 3 – Deall y ffactorau sy'n gysylltiedig â Her Menter a Chyflogadwyedd

Dyma'r elfen gryfaf ar draws yr Her o hyd. Yn y rhan fwyaf o gofrestriadau mae'r arddangosfa weledol yn cymhwyso egwyddorion y pum elfen – cynnyrch, pris, lleoliad, hyrwyddo a phobl (y '5P' yn Saesneg – '*product, price, place, promotion and people*'), er bod llai o greadigrwydd i'w weld yn y gyfres hon. Lle'r oedd prototeip wedi'i ddatblygu, roedd y cyflwyniad yn fwy llwyddiannus o ran cyfleu'r cysyniad terfynol. Mae'n arfer da dangos y broses ddatblygu yn ystod y cyflwyniad neu dynnu sylw at unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i ymchwil i'r farchnad.

Mae llwyddiant parhaus gyda'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau. Mae defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â chynulleidfa darged a chynyddu ymwybyddiaeth o frandio yn sgîl bwysig ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Wrth gynllunio'r strategaeth ar gyfer marchnata mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gofyn cwestiynau fel, 'Pa lwyfan cyfryngau cymdeithasol fydd yn ein helpu i gyflawni ein nod?' a 'Pa fath o gynnwys fydd yn denu ein cynulleidfa?'.

Mae cynllunio ariannol yn agwedd wannach gyda rhai costau'n afrealistig neu'n waitth dyfalu yn hytrach na ffigurau wedi'u hymchwilio. Defnyddiodd y rhai a ennillodd farciau yn y bandiau uwch daenlenni Excel i arddangos eu costau, llif arian neu rhagamcaniadau.

Helpodd sylwebaethau manwl fel rhan o'r datganiad cadarnhau i gyfleu'r cyflwyniad. Braf yw gweld gweithwyr proffesiynol allanol yn cymryd rhan tra bod dysgwyr yn rhoi eu cyflwyniad, ond atgoffir canolfannau mai'r aseswr a ddylai gwblhau'r datganiad cadarnhau gan ei fod yn ymwybodol o'r safonau gofynnol. Wrth gasglu'r dystiolaeth, nid yw cyflwyniadau PowerPoint yn unig bob amser yn gwneud cyfiawnder â'r ymgeisydd. Mae sgriptiau, fideos o'r digwyddiad a sylwadau ar y datganiad cadarnhau yn ychwanegiadau gwerthfawr i ddangos tystiolaeth o benderfyniadau a wneir yn erbyn y maen prawf asesu.

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Parhaodd cyflwyno samplau drwy e-gyflwyno i wella'r gyfres hon gyda'r rhan fwyaf o ganolfannau'n cyflwyno gwaith yn y fformat gofynnol (mp3, mp4, doc, pdf, xls, ppt a jpeg). Mae rhai canolfannau'n parhau i lwytho sawl ffeil i fyny yn hytrach na'u rhoi mewn ffolder sip/lleihau'r ffeiliau i 1. Roedd trefnu a labelu gwaith ymgeiswyr yn electronig o safon dda ar y cyfan, er bod lleiafrif o ganolfannau wedi llwytho i fyny gwaith heb system glir o nodi pa ffeil oedd yn ymwneud â pha dasg a/neu waith a rannwyd yn nifer o ffeiliau llai heb system enwi glir.

Unwaith eto, roedd asesiad canolfan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn eithaf cymysg ar gyfer y gyfres hon, gyda rhai canolfannau'n asesu ymgeiswyr uwchlaw lefel y gwaith a gyflwynwyd a hefyd yn asesu'n rhy llym ar waelod y bandiau marcio. Atgoffir canolfannau unwaith eto fod yn rhaid i safoni cadarn ddigwydd o fewn Canolfannau fel bod pob aseswr yn asesu gwaith i'r un lefel. Atgoffir canolfannau unwaith eto hefyd fod yn rhaid cofio'r cyngor a roddwyd gan y cymedrolwyr mewn adroddiadau cymedroli canolfannau blaenorol a gweithredu arno yn y gyfres ddilynol.

Deilliant Dysgu 1 – Gallu cymhwyso sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau

Mae'n amlwg bod gan fwyafrif llethol y canolfannau a'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir a thrylwyr o sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, gan gynnwys y dulliau a'r technegau i'w dadansoddi e.e. tynnu sylw at ffynonellau, anodi hygyrdded, RURU, ffactorau PESTLE a thrafodaethau dosbarth ac ati. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu dangos tystiolaeth fanwl o hyn drwy eu nodiadau. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu cyfod y wybodaeth hon yn glir ac yn effeithiol yn eu Safbwyntiau Personol. Fodd bynnag, yn y gyfres hon nid oedd llawer o Safbwyntiau Personol yn cyfeirio at y deunydd ffynhonnell a/neu'r trafodaethau ystafell ddosbarth a oedd wedi digwydd. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu ymgeiswyr i ennill marciau yn y bandiau uchaf.

Roedd pecynnau ffynonellau o yn amrywiol o ran ansawdd. Lle'r oedd canolfannau'n defnyddio ffynonellau'n dda, cawsant eu gwahaniaethu mewn ymateb i anghenion unigolion/grwpiau o ymgeiswyr. Mewn samplau llai llwyddiannus, roedd ffynonellau'n rhy hir a chymhleth ac nid oeddent yn galluogi ymgeiswyr i ymgysylltu mor llawn â'r deunydd ffynhonnell. Atgoffir canolfannau y dylid cynnwys 4 ffynhonnell yn y pecyn ffynhonnell, sy'n cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig, data rhifiadol a delweddau. Dylid annog ymgeiswyr hefyd i ddod o hyd i 2 ffynhonnell eu hunain i ategu'r pecyn adnoddau.

Roedd yn braf gweld bod llawer o ymgeiswyr wedi cynnwys y cyfrif geiriau gofynnol ar gyfer eu Safbwynt Personol ac wedi llwyddo i gadw at y cyfrif geiriau 800 gair. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr yn dal i ysgrifennu llawer mwy na'r terfyn hwn ac atgoffir canolfannau os bydd ymgeiswyr yn mynd dros y terfyn hwn yn sylweddol, na ellir ystyried eu Safbwyntiau Personol yn effeithiol ac na fyddai ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar frig band 4.

Mae myfyrio ar y broses Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu ymhellach i lawer o ganolfannau. Rhaid annog ymgeiswyr i adlewyrchu ar y sgiliau a ddefnyddiwyd; yn y gyfres hon disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y camau a gymerwyd yn hytrach na myfyrio ar sut roedd eu sgiliau wedi datblygu a'u gwerthuso. Mewn lleiafrif o ganolfannau, anwybyddwyd y adlewyrchiad ar gyfer DD1 yn llwyr ac atgoffir canolfannau bod elfen fyfyrion DD1 yn cyfrannu rhan bwysig o'r marciau a ddyfernir ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn.

Deilliant Dysgu 2 – Gallu defnyddio Creadiedd ac Arloesi

Cafwyd ymateb cymysg gan ganolfannau ac ymgeiswyr ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn. Fel y nodwyd yn y gyfres flaenorol, roedd rhai ymgeiswyr wedi hepgor y cam cychwynnol o greu nifer o syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Yn hytrach, roedd rhai wedi symud yn syth i ystyried cryfderau a gwendidau ar gyfer nifer cyfyngedig o syniadau. Rhaid i ganolfannau annog pob ymgeisydd i ystyried nifer o ffyrdd o godi ymwybyddiaeth fel y gallant archwilio dulliau creadigol ac arloesol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dewis ac yn gweithredu syniadau dichonadwy, realistig a phriodol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o ddatblygu syniadau ymgeiswyr yn parhau i amrywio o ganolfan i ganolfan. Yn y gyfres hon dangosodd llawer o ymgeiswyr ddatblygiad da o'u dull dewisol, gan symud o syniadau cychwynnol, i ystyried nodweddion dylunio, i fformat drafft, gan geisio adborth gan gymheiriaid a gweithredu newidiadau cyn llunio canlyniad terfynol. Mae hyn yn darparu tystiolaeth glir ac effeithiol o sawl cam datblygu. Mewn nifer o ganolfannau, roedd ymgeiswyr yn brin o ddyfnder wrth ddatblygu eu syniadau, gan gynhyrchu fforograffau yn aml a oedd yn cofnodi'r broses o weithredu eu canlyniad terfynol, yn hytrach na datblygu eu dull dewisol a cheisio adborth cyn llunio'r canlyniad terfynol.

Mae myfyrio ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn yn parhau i fod o ansawdd gwell na myfyrdodau ar gyfer Deilliant Dysgu 1. Roedd bron pob ymgeisydd yn gallu llunio adlewyrchiad o ddatblygiad eu dull codi ymwybyddiaeth. Roedd ymgeiswyr a oedd wedi datblygu eu syniad dewisol yn effeithiol (fel y soniwyd uchod) yn fwy llwyddiannus ar gyfer yr elfen hon o'r Deilliant Dysgu hwn gan eu bod yn amlwg yn gallu myfyrio ar y gwahanol gamau o ddatblygu eu syniad. Mae natur werthusol myfyrdodau yn gwella, er eu bod yn tueddu i fod yn fwy disgrifiadol yn hytrach na gwerthuso ac mae hwn yn parhau i fod yn faes datblygu i'r rhan fwyaf o ganolfannau.

Deilliant Dysgu 3 – Deall y materion sy'n gysylltiedig â Her Ddinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r Deilliant Dysgu hwn yn parhau i fod yr un sy'n cael ei asesu'n fwyaf cywir gan Ganolfannau. Mae bron pob canolfan yn asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o'r gwahanol faterion byd-eang yn gywir, sy'n braf iawn ei weld.

Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos tystiolaeth dda o ddeall ffactorau PESTLE drwy anodi ychwanegol a thynnu sylw at ffynonellau. Lle mae hyn yn fwyaf effeithiol, gall ymgeiswyr gyfosod y wybodaeth a'i defnyddio o fewn eu Safbwynt Personol i ategu eu sylwebaeth. Dylid annog pob ymgeisydd i gymysgu ffactorau PESTLE yn eu Safbwyntiau Personol fel nad yw'n dasg ar wahân ond ei fod yn ategu barn, safbwyntiau a dadleuon ymgeiswyr yn Tasg 1.

Yn y gyfres hon, roedd yn braf gweld cymaint o ganlyniadau creadigol gan gynnwys canfasau celf, mosaig poteli wedi'u hailgylchu ac animeiddiadau fideo, i enwi ond ychydig. Anogir canolfannau i barhau i ysbrydoli creadigedd yn eu dysgwyr. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o ganolfannau yn hyderus wrth asesu canlyniadau ymgeiswyr ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn yn gywir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ymgeiswyr yn parhau i ddatblygu syniadau nad ydynt yn cael eu gweithredu e.e. nwyddau, neu nad ydynt yn darparu tystiolaeth o'r canlyniad gwirioneddol e.e. peidio â chynnwys cysylltau i wefannau, fideos neu apiau. Atgoffir canolfannau felly bod yn rhaid i ganlyniadau gael eu llunio gan ymgeiswyr a bod yn rhaid iddynt fod yn weladwy i'r cymedrolwr.

Her y Gymuned

Roedd llawer llai o ymgeiswyr wedi'u cofrestru ar gyfer y gyfres hon oherwydd y cyfyngiadau presennol. Roedd tystiolaeth glir bod y rhan fwyaf o ganolfannau yn gallu cynnig gweithgareddau pwrpasol a gwerthfawr sy'n cynnig digon o gyfleoedd i'r ymgeiswyr ddangos yr annibyniaeth a'r cyfrifoldeb sydd eu hangen er mwyn ennill marciau yn y bandiau uchaf. O ganlyniad, cyflwynodd nifer o ganolfannau dystiolaeth yn dangos bod ymgeiswyr wedi ymgysylltu'n llawn gyda'r Her ac yn gallu cwblhau pob un o'r tasgau angenrheidiol i gyflwyno'r dystiolaeth briodol ar gyfer pob Deiliant Dysgu.

Mae cynllunio canolfannau yn parhau i fod yn allweddol i sicrhau bod yr Her y Gymuned yn llwyddiant ac mae angen ystyried sut y gellir gweithredu'r briffiau a ddewisir yn lleoliad yr ysgol unigol. Dewisodd pob canolfan friffiau addas ond mewn rhai achosion wrth eu gweithredu, ni roddwyd digon o gyfleoedd i'r ymgeiswyr gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer pob un o'r Deilliannau Dysgu. Pan fo'r agwedd 'gwneud' yn annigonol, naill ai o ran amser neu gymhlethdod, mae'n llesteirio gallu'r ymgeiswyr i gyflwyno gwaith cynllunio manwl ac effeithiol yn arbennig. Yn yr un modd, pan fydd canolfannau'n darparu gweithgareddau ar gyfer grwpiau mwy, mae'n llesteirio gallu'r ymgeiswyr i ddangos digon o annibyniaeth a chyfrifoldeb sydd ei angen ar gyfer cynllunio a threfnu. Mae nifer fach o ganolfannau yn parhau i ganiatáu i ymgeiswyr ymgymryd â'u gweithgaredd ddewisol fel dosbarth nad yw'n cyd-fynd â'r fanyleb sy'n dangos bod yn rhaid i faint y tîm fod yn 3 i 6 aelod. Yn yr unmodd, atgoffir canolfannau nad yw ymgeiswyr sy'n gweithio mewn parau ar yr her hon yn cadw at ofynion y fanyleb.

Atgoffir canolfannau er gall y gweithgaredd gael ei gynnal fel tîm, bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chwblhau'n unigol. Ac eithrio rhai o gydrannau tasg 2 (e.e. cyfleoedd a risgiau, adnoddau, cynlluniau gwersi, cynlluniau gweithredu grŵp), rhaid sicrhau bod elfen o unigoliaeth yn y dystiolaeth a gyflwynir gan fod yn rhaid i'r ymgeiswyr "ddarparu ymateb unigol fel rhan o ganlyniad unrhyw dasg" (tudalen 32 o'r fanyleb). Mae hyn wedi gwella'n sylweddol, ond mae lleiafrif o ganolfannau yn parhau i gyflwyno dystiolaeth yr ystyrir ei bod yn rhy debyg neu'n union yr un fath o ran natur.

Gwelwyd yr asesiad mwyaf manwl gywir gan ganolfannau pan gymhwyswyd pob un o feini prawf y Deilliannau Dysgu yn glir i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr. Atgoffir canolfannau mai dim ond y dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr y gellir ei hystyried i'w hasesu.

Deiliant Dysgu 1 – Gallu defnyddio Cynllunio a Threfnu

Dechreuodd y gwaith mwyaf llwyddiannus gyda briff clir a phenodol a oedd yn caniatáu i'r ymgeiswyr gyflwyno nodau ac amcanion priodol a realistig a oedd yn berthnasol i'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Cyflwynodd yr ymgeiswyr cryfaf gynllunio a oedd yn amlwg yn gysylltiedig â'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn ystod yr agwedd 'gwneud' ar yr Her yn hytrach na chanolbwyntio ar y paratoi yn unig. Roedd hyn yn caniatáu cynllunio manylach a mwy effeithiol, gan ganiatáu i ymgeiswyr ennill marciau yn y bandiau uwch.

Lle'r oedd cynllunio wedi'i gwblhau'n wael, roedd ymgeiswyr yn tueddu i ganolbwyntio ar y gwaith paratoi gan ystyried yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud yn ystod y gweithgaredd ei hun mewn modd annigonol iawn. Atgoffir canolfannau bod yn rhaid i'r gwaith cynllunio a threfnu ganolbwyntio ar sut mae'r ymgeiswyr yn bwriadu cyflawni'r gweithgaredd a ddewiswyd ganddynt. Pan nad oedd ffocws clir i'r briff neu pan nad oedd y gweithgaredd yn darparu digon o gyfrifoldeb, nid oedd ymgeiswyr yn gallu dangos cynllunio manwl a oedd yn cyfyngu ar y marciau a oedd ar gael.

Cafwyd eto rai enghreifftiau da iawn o gynlluniau gwersi lle y defnyddiwyd briffiau Hyfforddi. Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos tystiolaeth glir ar gyfer monitro a datblygu, gan eu bod yn adolygu'r cynlluniau rhwng cyflwyniadau, pe gofynnwyd iddynt ailadrodd sesiynau fwy nag unwaith, neu'n myfyrio ac yn addasu syniadau wrth addysgu dros gyfnod hwy. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth dda hefyd mewn perthynas â'r briffiau Llesiant Cymdeithasol, gyda rhai ymgeiswyr yn cyflwyno cynllunio manwl ac effeithiol ar gyfer yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud er mwyn hyrwyddo a chefnogi yr elusen / sefydliad a ddewiswyd ganddynt.

Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn dangos ystyriaeth o'r amrywiaeth o enghreifftiau o gynnwys a restrir yn y fanyleb (tudalen 27) fel gosod targedau, adnoddau gofynnol a risgiau, cynlluniau gweithredu tîm ac unigol, ond roedd hyn yn anghyson ar draws y canolfannau. Atgoffir canolfannau nad yw'n ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio pob un o'r elfennau gan fod dealltwriaeth i'w gweld drwy'r defnydd a weir ohonynt yn ystod y broses gynllunio. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr yn cynnwys cynllunio ar ffurf paragraffau disgrifiadol nad oeddent yn caniatáu cynllunio manwl ac effeithiol ac a oedd hefyd yn ei gwneud yn anos dangos gweithredu effeithiol a llwyddiannus.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio a threfnu, rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion digonol yn y cynlluniau gweithredu gan rannu cyfrifoldebau'n glir wrth weithio fel tîm. Mae rhai ymgeiswyr yn parhau i ddefnyddio gosodiadau generig fel "ymarfer saethu" neu "gweithio gyda disgyblion" yn eu cynllun gweithredu. Nid yw hyn yn ddigonol i gyrraedd y bandiau uchaf. Yn yr un modd, nid yw ailadrodd yr un gosodiad trwy gydol y cynllun gweithredu yn dangos tystiolaeth o gynllunio manwl ac effeithiol a dylid marcio i adlewyrchu hyn.

Roedd y defnydd o dempledi safonol i'r diwydiant wedi'i wneud yn llwyddiannus gan y rhan fwyaf o ganolfannau, gydag ymgeiswyr yn eu defnyddio'n addas fel rhan o'u proses gynllunio. Y templedi mwyaf cyffredin oedd y rhai oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer asesiadau risg, cynlluniau gwersi, cynlluniau gweithredu a dadansoddiad SWOT.

Gwelwyd unwaith eto bod rhai canolfannau'n defnyddio strwythurau a llyfrau gwaith anhyblyg yn llwyddiannus i gynorthwyo ymgeiswyr i gyflawni marciau band 1. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau yn parhau i ddarparu gormod o strwythur i bob ymgeisydd sy'n cynnwys templedi gyda chwestiynau arweiniol sy'n cyfyngu ar hygyrchedd i farciau yn y bandiau uwch gan eu bod yn cyfyngu ar ymatebion dysgwyr ar draws yr holl Ddeilliannau Dysgu.

Gwelwyd tystiolaeth dda o fonitro a datblygu trwy Gofnodion Cyfranogi manwl lle byddai ymgeiswyr yn cyfeirio at y cryfderau a'r gwelliannau a wnaed wrth iddynt roi eu cynllun ar waith fel rhan o'u cofnod gweithgarwch.

Roedd yr ymgeiswyr cryfaf wedi cyfeirio'n glir at y broses gynllunio wrth fyfyrrio, gan ddangos pam eu bod wedi llwyddo â'u gwaith cynllunio neu ba feysydd y gallent eu gwella. Mae rhai ymgeiswyr yn parhau i ddisgrifio'r gweithgaredd yn hytrach na darparu sylwadau gwerthusol ar y broses gynllunio ei hun sydd unwaith eto'n llesteirio'r marciau sydd ar gael.

Deilliant Dysgu 2 – Deall Effeithiolrwydd Personol

Roedd pob ymgeisydd wedi cynnal archwiliad sgiliau gan ddefnyddio un o sawl ffurf ond canolbwyntiodd y mwyafrif llethol ar ddadansoddi canlyniadau sy'n galluogi i ymgeiswyr ennill marciau uwch.

Byddai'r ymgeiswyr cryfaf yn cynnwys enghreifftiau penodol o'r modd y maent wedi cymhwyso sgiliau amrywiol yn y gorffennol i ddangos canlyniadau'r archwiliad, yn ogystal â dangos ystyriaeth o'r modd y mae'r sgiliau'n berthnasol i'w gweithgaredd yn y gymuned. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus wedi cynnwys cynllun clir ar gyfer gwella, gan ganolbwyntio ar sut y gellid eu datblygu yn ystod agwedd "gwneud" yr Her. Roedd hyn hefyd yn rhoi ffocws clir i'r ymgeiswyr wrth iddynt fyfyrrio ar eu sgiliau yn dilyn y gweithgaredd ei hun.

Roedd y rheini â Chofnod Cyfranogi manwl, lle roeddent wedi dogfennu'r ffordd y rhoddwyd eu cynllun ar waith yn glir, yn gallu dangos eu bod yn perfformio eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain yn effeithiol yn ystod y gweithgaredd, gan iddynt gynnwys sylwebaeth a/neu werthusiadau o'r hyn a gwnaethant yn ystod yr oriau yn y Gymuned.

Unwaith eto, mae'r myfyrdod ar gyfer y Deilliant Dysgu hwn yn tueddu i fod yn gryfach nag ar gyfer DD1. Wrth ddefnyddio enghreifftiau i esbonio a chyfiawnhau'r ffordd yr oeddent yn rhoi sgiliau ar waith a'u datblygu, ennillodd ymgeiswyr farciau yn y bandiau uchaf. Roedd myfyrdodau disgrifiadol, lle'r oedd ymgeiswyr yn adnabod y sgiliau yn unig yn tueddu i fod yn gyfyngedig neu'n sylfaenol.

Deilliant Dysgu 3 – Gallu cymryd rhan yn Her y Gymuned

Pan ddarparwyd briff wedi'i ddiffinio'n fanwl, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod wedi ystyried pwrpas a budd y gweithgaredd, fel arfer ar ffurf cyflwyniad i'r Cofnod Digidol Personol. Byddai'r rhai sy'n ennill y marciau uwch yn nodi pwrpas a budd y gweithgaredd mewn perthynas â'u cymuned ddewisol. Mewn lleiafrif o achosion, roedd hyn yn rhy gyffredinol ymysg ymgeiswyr, ac atgoffir canolfannau y dylid cwblhau hyn yn unigol. Atgoffir canolfannau nad yw'n ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio ystyr Cymuned yn gyffredinol nac archwilio'r gwahanol gymunedau sy'n agored iddynt gan nad yw hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'r meini prawf asesu.

Atgoffir canolfannau bod yr Her yn gofyn am ddigon o oriau yn ymgymryd ag agwedd 'gwneud' yr Her drwy weithio gyda'r gymuned neu yn y gymuned. Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi bodloni'r gofyniad gan ymgymryd â gweithgareddau pwrpasol a gwerthfawr, roedd tystiolaeth i'r gwrthwyneb mewn rhai achosion. Yn ogystal â llesteirio'r dysgwyr yn DD3, mae methu â chynnig cyfle i ymgymryd â'r oriau angenrheidiol hefyd yn cael effaith andwyol ar y gwaith cynllunio a threfnu, ac ar eu gallu i arddangos perfformiad effeithlon ac effeithiol.

Darparwyd datganiad cadarnhau gan y mwyafrif helaeth o ganolfannau, fodd bynnag mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd wedi'i gwblhau'n gywir. Atgoffir canolfannau mai dim ond y datganiad sy'n adlewyrchu cyfranogiad yr ymgeisydd orau yn ystod agwedd 'wneud' yr Her y dylid ei ddewis.

Mae'r Cofnod Cyfranogi yn elfen allweddol o'r PDR gan ei fod yn ffynhonnell o dystiolaeth ar gyfer bob un o'r Deilliannau Dysgu. Mae hyn yn gryfder i lawer o ymgeiswyr wrth iddynt ddogfennu rhoi eu cynllun ar waith yn glir a chadw cofnod o'r hyn a wnaethant yn bersonol yn ystod agwedd 'gwneud' yr Her, gan ddefnyddio ffotograffau wedi'u trefnu a'u hanodi'n unigol ynghyd â dyddiaduron digidol, fideos personol, cyfweiliadau a blogiau.

Fel rhan o'r Her, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr arddangos sgiliau Llythrennedd Digidol wrth iddynt ddatblygu eu PDR mewn modd creadigol. Pan fydd y ganolfan yn darparu gormod o strwythur, ni all yr ymgeiswyr ennill marciau yn y bandiau uwch gan na allant ddangos sgiliau trefnu, storio a rheoli effeithiol yn y ffordd y gwnaethant gasglu eu tystiolaeth ynghyd yn unigol. Gwelwyd rhai Cofnodion Digidol Personol o safon uchel iawn yn ystod y gyfres hon, gydag ymgeiswyr yn cyflwyno gwaith strwythuredig yn dangos tystiolaeth o drefnu a rheoli, drwy gasglu'r tasgau amrywiol at ei gilydd i greu portffolio wedi'i drefnu'n dda o dystiolaeth yn defnyddio hypergysylltau neu delweddau wedi'u hymgorffori.